Asesiad Effaith

Trawsnewid Ysgol Calon Cymru

Powys

Mae Asesiadau Effaith (AE) yn broses o asesu sut y gall ein cynigion a'n penderfyniadau effeithio ar dri gwahanol fath o bobl a chymunedau, a datblygu cynigion yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol, ac mae'n sicrhau fod y Cyngor yn ystyried deddfwriaeth allweddol, megis Cydraddoldeb, Y Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol, Dyletswydd Gymdeithasol-economaidd a Risg, wrth lunio cynigion.

Hefyd bydd yn helpu'r Cyngor i wneud y penderfyniadau posibl gorau er budd trigolion Powys.

Cyn cychwyn, dylech ddarllen y canllawiau sydd ar gael yma yn Gymraeg neu yma yn Saesneg.

1. Gwybodaeth am y Cynnig

* Gofynnol

Enw'r Awdur	Sarah Astley
Pennaeth Gwasanaeth	Marianne Evans
Aelod Portffolio	Councillor Pete Roberts
Teitl y Cynnig	Trawsnewid Ysgol Calon Cymru

Disgrifiad o'r Cynnig*	Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried papur sy'n gofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad ar y cynigion canlynol:
	
	Cam 1 (Medi 2027):
	
	- Sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (4-18) ar gampws presennol Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Mallt.
	  ○ I ddechrau, byddai'r ysgol yn rhannu campws Llanfair-ym-Muallt gydag Ysgol Calon Cymru, gan ddefnyddio rhan o'i hadeilad a rhannu rhai cyfleusterau.
	  ○ Byddai hwn yn drefniant dros dro hyd nes y bydd buddsoddiad cyfalaf wedi bod ar safle Llandrindod o dan Gam 2.
	
	- Newid categori iaith Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt i Saesneg.
	  ○ Byddai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn symud i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed.
	
	- Newid categori iaith Ysgol Calon Cymru o ddwy ffrwd i gyfrwng Saesneg.
	  ○ Byddai disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027 yn trosglwyddo i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed. Byddai ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru yn cael ei diddymu'n raddol erbyn Medi 2029.
	
	Cam 2 (Medi 2029 ar y cynharaf):
	
	- Yn dilyn buddsoddiad cyfalaf ar gampws Llandrindod i ddarparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru a gwella'r cyfleusterau presennol, byddai Ysgol Calon Cymru yn cau ei champws Llanfair-ym-Muallt ac yn gweithredu o gampws Llandrindod yn unig.
	  ○ Byddai disgyblion o gampws Llanfair-ym-Muallt Ysgol Calon Cymru yn symud i safle Llandrindod.
	  ○ Byddai'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn cymryd drosodd y cyfan o safle Llanfair-ym-Muallt.

2. Arbedion a Ymgynghori

* Gofynnol

Proffil arbedion

2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029+	Cyfanswm arbedion
Cliciwch neu tapiwch yma i	Cliciwch neu tapiwch yma i	Cliciwch neu tapiwch yma i	Cliciwch neu tapiwch yma i	Cliciwch neu tapiwch yma i	Cliciwch neu tapiwch yma i	Cliciwch neu tapiwch yma i

ychwanegu testun	ychwanegu testun	ychwanegu testun	ychwanegu testun	ychwanegu testun	ychwanegu testun	ychwanegu testun

Rhagor o wybodaeth

Amherthnasol

Gofynion ymgynghori

A oes angen ymgynghori? *	Oes
Dyddiad gorffen ymgynghoriad undeb	28/04/2025
Dyddiad gorffen ymgynghoriad staff	28/04/2025
Dyddiad gorffen ymgynghoriad cyhoeddus	28/04/2025

Cynllun ymgynghori (neu gyfiawnhad lle and oes rhaid ymgynghori)

Os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, rhagwelir y bydd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn dechrau ym mis Ebrill 2025

3. 3. Effaith ar feysydd gwasanaeth eraill, ardaloedd daearyddol a diogelu data ℹ

* Gofynnol

3a. 3a. Effaith ar feysydd gwasanaeth eraill *

☐ Gwasanaethau Digidol

☒ Gwasanaethau Plant

☐ Gwasanaethau Oedolion

☒ Deallusrwydd Busnes a Llywodraethiant

☒ Pobl

☒ Cyllid

☒ Cyfreithiol a Monitro

☒ Economi a Hinsawdd

☐ Gwasanaethau Tai

☒ Priffyrdd,Trafnidiaeth ac Ailgylchu

☒ Cynllunio a Gwasanaethau Rheoleiddio

☒ Trawsnewid Addysg

☒ Gwella Ysgolion a Dysgu

☒ Lles Cymunedol

☐ Partneriaid Strategol, e.e. PTHB, RPB

Os dewiswyd 'Partneriaid Strategol", noder y partneriaid strategol isod os gwelwch yn dda

Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

Powys

3b. Effaith ar leoliadau daearyddol*

- ☐ Powys gyfan
- ☐ Llanfyllin
- ☐ Y Trallwng a Threfaldwyn
- ☐ Machynlleth
- ☐ Llanfair Caereinion
- ☐ Y Drenewydd
- ☐ Llanidloes
- ☒ Llandrindod a Rhaeadr Gwy
- ☐ Tref-y-clawdd a Llanandras
- ☒ Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd
- ☐ Y Gelli Gandryll a Thalgarth
- ☐ Aberhonddu
- ☐ Crughywel
- ☐ Ystradgynlais



3c. Asesiad effaith diogelu data ℹ

A fydd y cynnig yn golygu prosesu manylion personol unigolion?*	Bydd
Ai Cyngor Sir Powys yw rheolwr y data? *	Ie

Os taw 'ie' oedd eich ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall uchod, gofalwch eich bod wedi cwblhau, o leiaf y cwestiynau sgrinio ar yr asesiad effaith diogelu data.

Am gyngor pellach, cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

4. Effaith ar y nodau llesiant yn cynnwys yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb

* Gofynnol

4a. Cymru ffyniannus

Effaith *	Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr trwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith. Byddai sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed yn cryfhau ac yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy wella ehangder yr opsiynau cyfrwng Cymraeg ar bob cam allweddol a sicrhau pontio a chynnydd cryfach i ddisgyblion. O ganlyniad, byddai disgyblion yn datblygu'n ddisgyblion cwbl ddwyieithog a fyddai'n meddu ar y sgiliau iaith i'w cynorthwyo yn eu gyrfaoedd a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol sy'n cefnogi'r anghenion economaidd a chymunedol lleol a chenedlaethol. Nid yw Cam 1 y cynnig yn mynd i'r afael yn llawn â heriau'r model cyflenwi presennol yn Ysgol Calon Cymru, gan y byddai angen i'r ysgol barhau i weithredu ar draws dau safle nes bod Cam 2 yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, byddai Ysgol Calon Cymru yn dod yn ysgol cyfrwng Saesneg, a fyddai'n galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar wella safonau addysgol mewn ffrwd un iaith - byddai hyn yn galluogi datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Byddai Cam 2 yn galluogi gwireddu manteision y cynigion yn llawn, gan y byddai ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg un ffrwd yn Llanfair-ym-Muallt, a byddai Ysgol Calon Cymru yn dod yn ysgol un ffrwd sy'n gweithredu o un safle. Byddai'n ofynnol i gael buddsoddiad cyfalaf yn y ddau safle i weithredu'r cynigion yn llawn. Mae manteision cymunedol i gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau / prentisiaethau yn un o ofynion allweddol prosiectau sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, felly rhagwelir y byddai'r cyfleoedd hyn ar gael fel rhan o weithredu'r ffordd a ffefrir ymlaen.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

4b. Cymru gydnerth

Effaith *	Byddai Cam 2 y cynnig yn arwain at well adeiladau ar safleoedd Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt. Rhagwelir y byddai hyn yn arwain at adeiladau mwy ecogyfeillgar, a fyddai'n fwy effeithlon o ran ynni na'r adeiladau presennol. Fodd bynnag, byddai gweithredu'r ffordd orau ymlaen hefyd yn golygu teithio ychwanegol i ddisgyblion uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n mynychu'r ddarpariaeth yn Llanfair-ym-Muallt ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cael effaith amgylcheddol negyddol gan y byddai angen darparu mwy o gludiant o'r cartref i'r ysgol i gludo disgyblion yn nalgylch Llanfair-ym-Muallt i Landrindod. Bwriad tymor hwy y cynnig yw cynyddu disgyblion Cymraeg yn yr ardal. Pe bai hyn yn cael ei gyflawni, byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ardal, a allai arwain yn y pen draw at ostyngiad yn nifer y disgyblion uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n cael eu cludo i Landrindod
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

4c. Cymru iachach

Effaith *	Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at sefydlu ysgol Gymraeg bob oed. Gan y byddai niferoedd disgyblion yn yr ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn fach i ddechrau, efallai y bydd effaith negyddol tymor byr ar y cyfleoedd a fyddai ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill, mewn grwpiau oedran cynradd ac uwchradd – ar hyn o bryd mae gan ddisgyblion fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a chwaraeon yn eu hysgolion presennol gan nad oes gwahaniad iaith ar hyn o bryd. Rhagwelir y byddai niferoedd disgyblion yn yr ysgol Gymraeg bob oed yn cynyddu dros amser, a fyddai'n golygu y gellid cynnig cyfleoedd ychwanegol. Byddai Cam 2 y cynnig yn arwain at gyfleusterau uwchradd newydd yn Llandrindod a chyfleusterau newydd / ailfodelu yn Llanfair-ym-Muallt. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a morâl disgyblion a staff. Byddai'r cynigion yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion uwchradd cyfrwng Saesneg yn mynychu'r un campws. Disgwylir y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd a fyddai ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill ac y byddai'n sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at yr un cyfleoedd. Mae'r buddsoddiad cyfalaf y bydd ei angen yn y ddau gampws hefyd yn rhoi cyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon ar y ddau safle, er mwyn gwella cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.
Cyfradd effaith *	Niwtral

Mesurau Lliniaru	Byddai'r ysgol Gymraeg bob oed yn gallu gweithio gyda sefydliadau fel Menter Brycheiniog a'r Urdd i ddatblygu rhaglen lawn o weithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyried buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon fel rhan o'r buddsoddiad cyfalaf
Effaith ar ol Lliniaru	Niwtral

4d. Cymru o gymunedau cydlynus

Effaith *	Yn y tymor byr, mae'n bosibl y gallai fod effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol yn Llanfair-ym-Muallt, yn enwedig tra bod y broses statudol yn parhau. Er y bydd rhai aelodau o gymuned Llanfair-ym-Muallt yn teimlo'n gryf iawn nad y cynnig yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ar gyfer Llanfair-ym-Muallt, bydd eraill yn y gymuned yn cytuno mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Byddai'r Cyngor yn gobeithio y byddai'r tensiynau lleol hyn yn lleddfu unwaith y bydd y broses yn dod i ben ac, os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, caiff y cynnig ei weithredu. Bydd gweithredu'r cynigion yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau ar ddau safle presennol Ysgol Calon Cymru. Mae darparu cyfleusterau cymunedol yn ystyriaeth allweddol fel rhan o'r holl brosiectau adeiladu newydd, felly mae'n debygol y byddai cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu fel rhan o weithredu'r ffordd orau ymlaen, a fyddai o fudd i'r ddwy gymuned.
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

4e. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Effaith *	Byddai niferoedd disgyblion yn yr ysgol Gymraeg yn fach i ddechrau, a allai effeithio ar adnoddau - mae'n bosib y byddai angen adnoddau ychwanegol cychwynnol i gefnogi'r ysgol. Fodd bynnag, y bwriad yw y byddai niferoedd disgyblion yn cynyddu yn y tymor hwy, a fyddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon. Byddai gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl yn cefnogi pob dysgwr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Yn ogystal, byddai dysgwyr yn datblygu'n llwyddiannus i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith yn ogystal â dod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd. Byddai gwell darpariaeth a chyfleusterau hefyd yn cefnogi dysgwyr i ddod yn unigolion iach a hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas. Rhagwelir y byddai'r cynigion yn negyddu'r angen presennol am deithio i staff a disgyblion rhwng dau gampws presennol Ysgol Calon Cymru, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar lygredd ac allyriadau cerbydau. Yn y tymor hir, rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o adnoddau. O ran Ysgol Calon Cymru, byddai'r ysgol yn gweithredu o un safle a thrwy un iaith, gan olygu na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth ar fwy nag un safle neu mewn mwy nag un iaith. Byddai Ysgol Calon Cymru, yr ysgol Gymraeg newydd bob oed ac Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt i gyd yn gweithredu fel ysgolion un iaith yn y pen draw ac felly ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth mewn dwy iaith, a fyddai hefyd yn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau yn y tymor hir. Os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar y cynnig, a fyddai'n cynnwys ymgynghori â'r holl ddisgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan y cynlluniau yn cael cyfle i roi eu barn
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

4f. Cymru sydd a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Defnyddio'r Gymraeg

Effaith *	Mae gwella'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghanolbarth Powys yn ystyriaeth allweddol fel rhan o'r datblygiad hwn. Ar hyn o bryd mae pryderon sylweddol am lefel y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai gweithredu'r ffordd ymlaen a ffefrir yn arwain at sefydlu ysgol Gymraeg bob oed yn Llanfair-ym-Muallt, gan alluogi dysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn trwy gydol eu gyrfaoedd addysgol, a'u galluogi i ddod yn hyderus ddwyieithog, gyda sgiliau Cymraeg a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg hyn trwy gydol eu hoes. Byddai sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed yn cryfhau ac yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy wella ehangder yr opsiynau cyfrwng Cymraeg ar bob cam allweddol a sicrhau pontio a chynnydd cryfach i ddisgyblion. O ganlyniad, byddai disgyblion yn datblygu'n ddisgyblion cwbl ddwyieithog a fyddai mewn sefyllfa well i gefnogi'r anghenion economaidd a chymunedol lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â chwricwlwm cyfrwng Cymraeg llawn, mae'n debygol y byddai sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad i weithgareddau Cymraeg, gan gynnwys gweithgareddau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a ddarperir gan sefydliadau eraill e.e. Menter Brycheiniog a Maesyfed, yr Urdd. Byddai sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dynodedig yn codi proffil addysg Gymraeg yn sylweddol yn yr ardal, a ddylai arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion, gan gyfrannu felly at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai newid categori iaith Ysgol GG Llanfair-ym-Muallt yn golygu y byddai disgyblion cyfrwng Cymraeg yn mynychu ysgol wahanol. Gallai hyn olygu y byddai staff sy'n siarad Cymraeg hefyd yn trosglwyddo i weithio yn yr ysgol newydd o bob oed, a allai effeithio ar ehangder sgiliau Cymraeg staff, ac felly sgiliau dwyieithog disgyblion cyfrwng Saesneg a fyddai'n aros yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt, a'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Efallai y bydd effaith negyddol ar rai disgyblion a staff Ysgol Calon Cymru os ydynt yn trosglwyddo o Lanfair-ym-Muallt i Landrindod, gan na fyddant bellach mewn amgylchedd lle defnyddir y Gymraeg yn ddyddiol a lle darperir addysg cyfrwng Cymraeg - gallai hyn gyfyngu ar eu cyfleoedd i glywed ac ymarfer yr iaith.
Cyfradd effaith *	Da iawn
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Hybu'r Gymraeg

Effaith *	Byddai sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn codi proffil addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol yn yr ardal a byddai'n darparu nifer o gyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo'r Gymraeg, yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Yn ogystal â chwricwlwm cyfrwng Cymraeg llawn, mae'n debygol y byddai sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed hefyd yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach gael mynediad at weithgareddau Cymraeg, gan gynnwys gweithgareddau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a ddarperir gan sefydliadau eraill e.e. Menter Brycheiniog a Maesyfed, yr Urdd. Byddai sefydlu ysgol Gymraeg newydd bob oed yn arwain at well cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ysgol, er enghraifft: • Trwy gael un 'Siarter Iaith' (Siarter Iaith Gymraeg) ar draws yr ysgol gyfan • Trwy gael un 'Criw Cymraeg' yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r ysgol a'r gymuned ehangach • Gwell cyfleoedd pontio i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn arbennig • Mwy o gyfleoedd i weithio o ysgol i ysgol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg • Gwell cyfleoedd i ddarparu gweithgareddau clwstwr Cymraeg Y bwriad yw y byddai ysgol Gymraeg newydd yn gweithredu fel ffocws i'r Gymraeg yn yr ardal, a byddai'r mwy o ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion, gan gyfrannu felly at darged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fel y nodwyd uchod, efallai y bydd effaith negyddol ar rai disgyblion a staff yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Calon Cymru gan eu bod yn mynychu / gweithio mewn ysgol cyfrwng Saesneg, ac ni fyddent bellach mewn amgylchedd lle defnyddir y Gymraeg yn ddyddiol a lle darperir addysg cyfrwng Cymraeg - gallai hyn gyfyngu ar eu cyfleoedd i glywed ac ymarfer yr iaith.
Cyfradd effaith *	Da iawn
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Chwaraeon, Celfyddyd a Hamdden

Effaith *	Byddai'r cynnig hefyd yn arwain at sefydlu ysgol Gymraeg bob oed. Byddai niferoedd yr ysgol yn fach i ddechrau, fodd bynnag, y bwriad fyddai cynyddu nifer y disgyblion dros amser. Yn y tymor byr, gall nifer y disgyblion bach gyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tîm a mathau eraill o weithgareddau. Byddai gweithredu'r cynnig yn y pen draw yn arwain at yr holl ddisgyblion uwchradd cyfrwng Saesneg yn mynychu'r un campws. Disgwylir y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill, a byddai'n sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at yr un cyfleoedd. Fodd bynnag, efallai y bydd effaith ar ddisgyblion o Lanfair-ym-Muallt ac ardaloedd ehangach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol os nad ydynt yn gallu cael mynediad i glybiau/gweithgareddau ar ôl ysgol os ydynt yn ddibynnol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r buddsoddiad cyfalaf y bydd ei angen yn y ddau gampws hefyd yn rhoi cyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon ar y ddau safle, er mwyn gwella cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

4g. Cymru sy'n fwy cyfartal

Oedran

Effaith *	Byddai Cam 1 y cynnig yn effeithio ar ddisgyblion oed cynradd yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt ym mis Medi 2027, a disgyblion oed uwchradd a fyddai wedi bod yn ddisgyblion yn Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027. Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr drwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith, fodd bynnag, cydnabyddir y byddai effaith ar ddisgyblion sydd yn y system ar hyn o bryd, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Anabledd

Effaith *	Byddai Cam 1 y cynnig yn effeithio ar ddisgyblion oed cynradd yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt ym mis Medi 2027, a disgyblion oed uwchradd a fyddai wedi bod yn ddisgyblion yn Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027. Er mai nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr drwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith, efallai y bydd effaith negyddol tymor byr gan y byddai newid i'w hysgolion a allai fod yn annifyr pe bai'n rhaid i grwpiau cyfeillgarwch/athrawon newid o ganlyniad. Gallai hyn fod yn arbennig o heriol i unrhyw ddisgybl ag ADY. Hefyd, yn dibynnu ar weithrediad corfforol y ddarpariaeth newydd, efallai y bydd effaith bellach ar ddisgyblion ag anableddau corfforol neu ddysgu. Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr ar gyfer pob dysgwr yn yr ardal, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion ag anableddau. Byddai gweithredu'r cynnig yn cynnwys buddsoddi cyfalaf yn y ddau gampws presennol yn Ysgol Calon Cymru, a fyddai'n gwella'r llety ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn yr ardal, a bydd angen sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Bydd angen cefnogi'r disgyblion yn llawn drwy newid y ddarpariaeth gydag anogaeth i barhau â grwpiau cyfeillgarwch y tu allan i'r ysgol. Gan ddibynnu ar weithrediad corfforol yr ysgol newydd, efallai y bydd angen gwneud addasiadau ffisegol i adeiladau er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol ar ddisgyblion ag anableddau corfforol
Effaith ar ol Lliniaru	Da

Ailbenni rhywedd

Effaith *	Dim effaith
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Priodas neu bartneriaeth sifil

Effaith *	Dim effaith

Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Hil

Effaith *	Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr drwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith, waeth beth fo'u hil
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Crefydd neu gred

Effaith *	Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr trwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith, waeth beth yw crefydd neu gred
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Rhyw

Effaith *	Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr trwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith, waeth beth fo'u rhyw
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Cyfeiriadedd rhywiol

Effaith *	Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr trwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol.
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Effaith *	Dim effaith
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Effaith *	Nod y cynnig yw gwella hawl a phrofiad dysgwyr drwy ddatblygu model addysg a fydd yn galluogi dysgwyr i gael addysg o ansawdd uchel yn y ddwy iaith ac mae hyn yn cynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig sy'n mynychu Ysgol Calon Cymru ar hyn o bryd e.e. unrhyw ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Byddai'r cynnig hefyd yn effeithio ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair-ym-Muallt, ond ni ragwelir y byddai hyn yn cael effaith negyddol. Byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn parhau i fod ar gael yn Llanfair-ym-Muallt. Byddai gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl yn cefnogi pob dysgwr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Yn ogystal, byddai dysgwyr yn datblygu'n llwyddiannus i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith yn ogystal â dod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd. Byddai gwell darpariaeth a chyfleusterau yn cefnogi dysgwyr i ddod yn unigolion iach a hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas. Pe bai Cam 2 y cynnig yn cael ei weithredu, ni fyddai unrhyw addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn cael ei darparu yn Llanfair-ym-Muallt. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Saesneg deithio i Landrindod. Er y byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys, mae'n bosibl y byddai hyn yn effeithio ar allu disgyblion i gael mynediad at weithgareddau allgyrsiol/ar ôl ysgol, ac y byddai'r effaith hon yn fwy o ran disgyblion o aelwydydd incwm is. Byddai hefyd effaith ar rieni'r disgyblion hyn o ran cael mynediad at weithgareddau ysgol
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

4h. Tystiolaeth

Gweithdai SOC, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, PLASC

5. Effaith ar egwyddorion arweiniol allweddol a'r gweithlu

* Gofynnol

5a. Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Hirdymor

Effaith *	Mae'r cynigion mewn perthynas ag Ysgol Calon Cymru yn cydnabod nad yw model gweithredu presennol yr ysgol yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddisgyblion, a'i nod yw mynd i'r afael â hyn fel bod y ddarpariaeth sydd ar gael i genedlaethau'r dyfodol yn darparu ystod o gyfleoedd iddynt, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn. Byddai gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl yn cefnogi pob dysgwr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Yn ogystal, byddai dysgwyr yn datblygu'n llwyddiannus i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith yn ogystal â dod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd. Byddai gwell darpariaeth a chyfleusterau yn cefnogi dysgwyr i ddod yn unigolion iach a hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas. Nod y cynnig i sefydlu ysgol Gymraeg newydd bob oed yw gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ardal yn sylweddol, gan sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth a fydd yn eu galluogi i feithrin sgiliau cwbl ddwyieithog a fydd yn eu helpu yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol, ac a fydd yn cyflawni dyhead Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai'r cynnig yn darparu model mwy cynaliadwy o ddarparu addysg uwchradd yn yr ardal, gan alluogi darparu addysg yn fwy effeithlon. Byddai gweithredu'r cynigion hefyd yn rhyddhau mannau cynradd yn yr ardal, a fyddai'n galluogi cynnal adolygiad ehangach o ddarpariaeth gynradd yn yr ardal
Cyfradd effaith *	Da iawn
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Cydweithredu

Effaith *	Pe bai'r Cabinet yn cytuno i weithredu'r cynnig mewn perthynas ag Ysgol Calon Cymru, byddai'r Cyngor yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â'r ysgolion presennol i drosglwyddo i'r model cyflawni newydd. O ran sefydlu ysgol bob oed, byddai hyn hefyd yn golygu cydweithio â mudiadau Cymraeg sy'n gweithio yn yr ardal, megis Mudiad Meithrin, Menter Brycheiniog a Maesyfed a'r Urdd
Cyfradd effaith *	Niwtral

Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Cynhwysiant (yn cynnwys Cyfathrebu ac Ymgysylltu)

Effaith *	Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r argymhelliad, byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a fyddai'n sicrhau'r cyfle i bob parti â diddordeb roi eu barn. Byddai canfyddiadau'r ymarfer hwn yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a byddent yn cael eu hystyried wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen. Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth a dderbyniwyd. Byddai'r holl randdeiliaid yn cael cyfle i roi eu barn fel rhan o'r broses hon, byddai hyn yn cynnwys unrhyw ofalwyr di-dâl yn yr ardal.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Atal

Effaith *	Mae'r materion allweddol sy'n ymwneud â model gweithredu Ysgol Calon Cymru wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith hwn. Roedd yr ymarfer gwerthuso opsiynau a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar nodi atebion a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn eu hatal rhag digwydd eto. Byddai gweithredu'r cynigion yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf ar ddau safle presennol Ysgol Calon Cymru. Bydd diogelu yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y ddau safle, a'r bwriad yw y byddai gweithredu'r cynlluniau'n llawn yn arwain at amgylchedd mwy diogel ac y byddai'n mynd i'r afael â phryderon diogelu sy'n gysylltiedig â safle Llanfair-ym-Muallt yn benodol, gan wella'r trefniadau diogelu.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

Integreiddio

Effaith *	Byddai dull integredig yn cael ei gymryd er mwyn gweithredu'r cynnig, a fyddai'n cynnwys meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor a phartneriaid eraill yn ôl yr angen
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

5b. Effaith ar y Gweithlu

Effaith *	Byddai'r cynnig yn effeithio ar staff Ysgol Calon Cymru ac Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair-ym-Muallt. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai angen ymgynghoriad llawn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn cyflawni hyn. Byddai'r broses hon yn cael ei chefnogi gan dimau ALl perthnasol (e.e. AD). Byddai hyn yn cynnwys ymgynghori â staff, a fyddai'n sicrhau eu bod yn cael cyfle i roi eu barn. Yn achos staff presennol Ysgol Calon Cymru, cydnabyddir bod llawer o staff yr ysgol wedi bod drwy'r broses o reoli newid ychydig flynyddoedd yn ôl fel rhan o sefydlu Ysgol Calon Cymru, felly mae posibilrwydd y gallai newidiadau staffio pellach gael effaith ar forâl staff tra bo'r prosesau hyn yn parhau. Mae'n bosibl y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at ostyngiad yn nifer y staffio yn Ysgol Calon Cymru, a fyddai'n cael effaith negyddol pellach ar y grŵp hwn o staff. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wahân, a fyddai'n darparu cyfleoedd newydd i staff / dysgwyr Cymraeg eu hiaith, ac a fyddai'n cael effaith gadarnhaol arnynt trwy eu galluogi i weithio mewn amgylchedd cwbl Gymraeg. Gall sefydlu ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg gael effaith ychwanegol ar ofynion staffio mewn meysydd gwasanaeth eraill o fewn y Cyngor, megis Gwasanaethau Plant, Arlwyo, Cyflogres, ADY gan y byddai disgwyl i'r meysydd gwasanaeth hyn ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i staff y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai gweithredu'r cynigion yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf yn y cyfleusterau yn Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar forâl staff
Cyfradd effaith *	Gwael
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

5c. Effaith y Gymraeg ar Staff

Effaith *	Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wahân, a fyddai'n darparu cyfleoedd newydd i staff / dysgwyr Cymraeg eu hiaith, ac a fyddai'n cael effaith gadarnhaol arnynt trwy eu galluogi i weithio mewn amgylchedd cwbl Gymraeg. Yn ogystal â staff Ysgol Calon Cymru, byddai hyn hefyd yn effeithio ar staff sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair-ym-Muallt. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wahân, a fyddai'n darparu cyfleoedd newydd i staff / dysgwyr Cymraeg eu hiaith, ac a fyddai'n cael effaith gadarnhaol arnynt trwy eu galluogi i weithio mewn amgylchedd cwbl Gymraeg. Fodd bynnag, efallai y bydd effaith negyddol ar staff Ysgol Calon Cymru ac Ysgol GG Llanfair-ym-Muallt os ydynt yn dod yn ysgolion cyfrwng Saesneg drwy leihau cyswllt â staff sy'n siarad Cymraeg, gan leihau cyfleoedd felly i staff ddefnyddio a rhyngweithio â'r Gymraeg. Gall sefydlu ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg gael effaith ychwanegol ar ofynion staffio mewn meysydd gwasanaeth eraill o fewn y Cyngor, megis Gwasanaethau Plant, Arlwyo, Cyflogres, ADY gan y byddai disgwyl i'r meysydd gwasanaeth hyn ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i staff y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg.
Cyfradd effaith *	Neutral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

5d. Effaith ar Brentisiaethau

Effaith *	Byddai gweithredu'r cynigion yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf yn y ddau safle. Mae manteision cymunedol i gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau / prentisiaethau yn un o ofynion allweddol prosiectau Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, felly rhagwelir y byddai'r cyfleoedd hyn ar gael fel rhan o weithredu'r ffordd orau ymlaen
Cyfradd effaith *	Niwtral
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem

5e. Tystiolaeth

Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

6. Tebygolrwydd a Risg ❶

* Gofynnol

Risg 1

Risg 1					
Cyfnod o ansicrwydd i'r ysgolion yr effeithir arnynt tra bod y broses statudol yn cael ei chynnal a'i gweithredu a all gael effaith negyddol ar safonau yn y ddwy ysgol					
Sgor tebygolrwydd	4	**Sgor effaith**	3	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed
Mesurau Lliniaru					
Cefnogaeth i'w darparu yn ystod y cyfnod pontio					
Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	3	**Effaith ar ol Lliniaru**	3	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 2

Risg 2					
Gall ansicrwydd yn ystod y cyfnod pontio arwain at rai staff yn gadael					
Sgor tebygolrwydd	3	**Sgor effaith**	3	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Mitigation					
Sicrhau bod prosesau'n cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl i leihau'r cyfnod o ansicrwydd					
Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	2	**Effaith ar ol Lliniaru**	3	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 3

Risg 3					
Os nad oes cyllid ar gael i ariannu'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen, yna ni fydd y prosiect yn gallu bwrw ymlaen					
Sgor tebygolrwydd	4	**Sgor effaith**	4	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Mitigation					
Mae Rhaglen Amlinellol Strategol wedi'i diweddaru wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru; Trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr Cyllid a Llywodraeth Cymru					
Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	3	**Effaith ar ol Lliniaru**	4	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 4

Risg 4					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					
Sgor tebygolrwydd	Dewiswch eitem	**Sgor effaith**	Dewiswch eitem	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed
Mitigation					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					
Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem	**Effaith ar ol Lliniaru**	Dewiswch eitem	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 5

Risg 5					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					
Sgor tebygolrwydd	Dewiswch eitem	**Sgor effaith**	Dewiswch eitem	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed
Mitigation					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					

Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem	**Effaith ar ol Lliniaru**	Dewiswch eitem	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

7. Crynodeb a dyfarniad ar yr Asesiad

Asesiad Amlinellol *

Mae'r asesiad effaith hwn yn awgrymu bod effaith Cam 1 y cynnig yn gadarnhaol ar y cyfan:

- Mae gwella'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghanolbarth Powys yn ystyriaeth allweddol fel rhan o'r datblygiad hwn. Ar hyn o bryd mae pryderon sylweddol am lefel y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai gweithredu'r ffordd ymlaen a ffefrir yn arwain at sefydlu ysgol Gymraeg bob oed yn Llanfair-ym-Muallt, gan alluogi dysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn trwy gydol eu gyrfaoedd addysgol, a'u galluogi i ddod yn hyderus ddwyieithog, gyda sgiliau Cymraeg a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg hyn trwy gydol eu hoes.
- Nid yw Cam 1 y cynigion yn mynd i'r afael yn llawn â heriau'r model cyflenwi presennol yn Ysgol Calon Cymru gan y byddai angen i'r ysgol barhau i weithredu ar draws dau safle hyd nes y bydd Cam 2 yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, byddai newid i ysgol cyfrwng Saesneg yn galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar wella safonau addysgol mewn ysgol ffrwd un iaith.
- Byddai Ysgol Calon Cymru, yr ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol GG Llanfair-ym-Muallt yn gweithredu fel ysgolion un iaith ac felly ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth mewn dwy iaith, a fyddai hefyd yn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau yn y tymor hir.

Mae'r asesiad effaith hwn yn awgrymu bod effaith Cam 2 y cynnig yn gadarnhaol ar y cyfan:

- Byddai darparu buddsoddiad cyfalaf i wella'r cyfleusterau yn y ddau safle presennol yn Ysgol Calon Cymru yn mynd i'r afael â llawer o faterion yn ymwneud â chyflwr yr adeiladau.
- Byddai cydleoli'r holl ddisgyblion cyfrwng Saesneg a disgyblion cyfrwng Cymraeg ar wahanol safleoedd yn galluogi'r ysgol i ddarparu lefel uwch o gyfleoedd addysgol i bob disgybl.

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a brofir gan Ysgol Calon Cymru o weithredu fel ysgol uwchradd dau safle, a byddai'n galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar wella safonau addysg mewn ysgol un ffrwd, un safle mewn adeilad gwell

8. Tystiolaeth Ychwanegol

Bydd angen ymgynghori llawn i weithredu'r cynnig, a bydd hyn yn galluogi'r asesiad effaith i gael ei ddatblygu ymhellach

9. Trefniadau monitro * ℹ

Bydd y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Addysg yn parhau i fonitro effaith dros amser

Dyddiad Adolygu *	31/07/2025

10. Cymeradwyo

Nawr gallwch gau'r ddogfen Word yma, a dychwelyd i'r Ap, neu ail-agor yr Ap drwy glicio yma. O'r Ap, bydd angen ichi gymeradwyo'r Asesiad Effaith. Gellir gwneud hyn yn yr adran 'Rheoli Asesiadau'. Dewiswch yr Asesiad Effaith rydych am ei nodi fel 'cyflawn', ac wedyn bydd yr Ap yn ei anfon yn awtomatig at y Pennaeth Gwasanaeth dan sylw.

Gallwch weld statws cymeradwyo cyfredol y ddogfen isod, ond dim ond yn yr Ap y gellid ei gymeradwyo.

Cymeradwyo awdur	Heb ei gymeradwyo gan yr awdur
Cymeradwyo Pennaeth Gwasanaeth	Heb ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth
Cymeradwyo Ddeiliad y Portffolio	Heb ei gymeradwyo gan Ddeiliad y Portffolio